futurefit
Shaping healthcare together

NHS

Dweud eich dweud ynglŷn â gwella gwasanaethau ysbyty i bobl yn Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru

Mae Grwpiau Comisiynu Clinigol GIG Sir Amwythig a Telford & Wrekin yn cynnig gwneud newidiadau i'r gwasanaethau ysbyty a ddarperir yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol ac Ysbyty Brenhinol Amwythig.

Rydyn ni wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ac rydyn ni'n gofyn am eich barn chi ar ddau opsiwn:

Opsiwn 1:
Daw Ysbyty Brenhinol Amwythig yn safle Gofal Argyfwng a daw Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol yn safle Gofal Cynlluniedig.
(Dyma'r opsiwn y mae'r Grwpiau Comisiynu Clinigol yn ei ffafrio)

Opsiwn 2:
Daw Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol yn safle Gofal Argyfwng a daw Ysbyty Brenhinol Amwythig yn safle Gofal Cynlluniedig.

Dan y naill opsiwn neu'r llall, fe fyddai gan y ddau ysbyty Ganolfan Gofal Brys a fyddai ar agor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

Fe fydd yr ymgynghoriad yn rhedeg o 30 Mai 2018 tan 4 Medi 2018.
I gael gwybod mwy ac i ddweud eich dweud, ewch i: www.nhsfuturefit.org